

**POLICE AND CRIME PANEL**  
**PANEL HEDDLU A THROSEDD**



## **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**

### **ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2019/20**

#### **Cefndir**

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd (y Panel) a gynhwysir ym Mharagraff 3 (2), Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

#### **Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig**

Hysbyswyd Panel Gogledd Cymru o braesept arfaethedig Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer 2019/20 ar 11 Ionawr 2019, yn unol â pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd y Panel adroddiad y Comisiynydd yn amlinellu'r praesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy, ddydd Llun 28 Ionawr 2019.

Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd arfaethedig i'r praesept i £81,030,000 (cynnydd o 8.42% o braesept 2018/19), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 7.74% (cyfwerth â £278.10 y flwyddyn, cynnydd o £19.98 y flwyddyn neu 38c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D).

Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid, a oedd yn nodi:

- Dyraniadau Cyllid
- Cymhariaeth o ran cyllid rhwng 2018/19 a 2019/20
- Dyraniadau Canolog (brigdorri)
- Newidiadau yn y gyllideb rhwng 2018/19 a 2019/20.
- Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20.
- Risgiau

Wrth graffu'r praesept arfaethedig, cyflwynodd y Panel sawl cwestiwn, yn bennaf yn ymwneud ag ansicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol a'r effaith y gallai hyn ei gael ar blismona yng Ngogledd Cymru. Byddai'r Llywodraeth yn cynnal Adolygiad o Wariant yn 2019/20, a fyddai'n gosod cyllidebau'r heddlu yn hir dymor ac yn ystyried sut y dyrennir adnoddau'n deg ar draws yr heddlu; nid oedd yn eglur a fyddai hyn yn cynnwys adolygiad o'r fformiwla gyllido.

Cyflwynodd y Panel bryderon ynglŷn â chynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr o 2019/20 i gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu a'r pwysau o ran costau ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal â hyn, pwysleisiodd y Panel eu pryderon o ran yr Ardoll Brentisiaethau a'r diffyg gallu i gael mynediad at y cyllid yng Nghymru.

Felly, gofynnodd y Panel bod llythyr yn cael ei anfon at CLILC, yn gofyn am gefnogaeth gan y Paneli eraill yng Nghymru i lobïo Trysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Canlyniadau gwerthusiad pensiwn yr heddlu a'r effaith y bydd yn ei gael ar dalwyr trethi lleol ac ar wasanaethau'r heddlu yng Nghymru.
- Bod angen dosbarthu'r Ardoll Brentisiaethau o San Steffan a'i gweinyddu drwy Goleg Plismona, er mwyn i'r heddluoedd yng Nghymru gael mynediad at gyllid ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysg newydd yr Heddlu.

Wrth ystyried y cynnydd arfaethedig o £19.98 y flwyddyn, cydnabu'r Panel bod y Comisiynydd wedi ceisio canfod cytbwysedd rhwng fforddiadwyedd ar gyfer y talwyr trethi lleol a sicrhau fod gan wasanaeth yr heddlu gyllid digonol. Cydnabuwyd hefyd bod y Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chodi'r praesept o £24 fel yr argymhellwyd; roedd y Swyddfa Gartref wedi tybio y byddai'r holl Heddluoedd yn cynyddu eu praesept o £24 drwy gyfrifo'r cyfanswm ychwanegol a fyddai ar gael i'r Heddluoedd o Braesept Treth y Cyngor.

Felly, am y rhesymau hyn, teimla'r Panel y gallant gefnogi'r cynnydd arfaethedig er mwyn darparu cyllideb ddigonol i alluogi darpariaeth gweithredol gwasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2019/20 a byddai hefyd yn caniatáu buddsoddi yn y Rhaglen Gwella Gweithredol (OIP), gyda 34 o swyddogion a 6 staff ychwanegol.

Gofynnwyd bod y wybodaeth ddiweddaraf am y buddsoddiad ychwanegol i ddarparu OIP yn cael ei darparu i'r panel ar adeg briodol, ond cyn ystyried y praesept ar gyfer 2020/21.

## **ARGYMHELLION:**

**(a) Cynyddu'r praesept i £81,030,000 ar gyfer 2019/20.**

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 7.74% - mae hyn yn gyfwerth â £278.10 y flwyddyn, cynnydd o £19.98 y flwyddyn neu 38c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D**
- **Dyma gynnydd o 8.42% o'i gymharu â phraesept 2018/19.**

**(b) Nodi bod £2.832m o arbedion wedi'u nodi ar gyfer 2019/20.**

**(c) Fod y Panel yn nodi y bydd £2.793miliwn o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**

**(d) Nodi y bydd £2.614 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol yn y praesept.**

**(e) Nodi bod y cynnydd o ran chwyddiant sy'n uwch na'r disgwyl o £5.223m yn deillio o benderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth mewn perthynas â chostau pensiwn y sector cyhoeddus.**

**(f) Nodi y bydd y cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor yn is o lawer na thybiaeth y Swyddfa Gartref o £24.**

**(g) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 7.74% yn 2019/20 a 4.32% yn 2020/21, 4.14% yn 2021/22, 3.97% yn 2022/23 a 3.82% yn 2023/24.**
- **Y bydd grantiau'r heddlu yn cael eu cadw ar y lefelau presennol o 2020/21 ymlaen.**
- **Y bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2% o fis Medi 2019**
- **Y bydd costau ychwanegol mewn perthynas â Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu o 2020-21 na fydd yn cael eu hariannu gan yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru**

**(h) Bod y wybodaeth ddiweddaraf am y buddsoddiad ychwanegol i ddarparu'r Rhaglen Gwella Gweithredol yn cael ei darparu i'r Panel ar adeg briodol, ond cyn ystyried y praesept ar gyfer 2020/21.**